OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 706 (Cy. 134) (C. 16)

# DŴR, CYMRU A LLOEGR

## Gorchymyn Deddf Dŵr 2014 (Cychwyn Rhif 10) (Diwygio) 2019

*Made - - - - 26 Mawrth 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 94(3) o Ddeddf Dŵr 2014(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Dŵr 2014 (Cychwyn Rhif 10) (Diwygio) 2019.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Dŵr 2014 (Cychwyn Rhif 10) 2017**

**2.** Mae paragraffau (c) a (d) o erthygl 3 o Orchymyn Deddf Dŵr 2014 (Cychwyn Rhif 10) 2017(**2**) wedi eu hepgor.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

26 Mawrth 2019

(**1**) 2014 p. 21. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol o dan adran 94(3) o Ddeddf Dŵr 2014 at y dibenion hyn yn rhinwedd y tabl ym mharagraff 1 o Atodlen 12 i'r Ddeddf honno.
(**2**) O.S. 2017/1288 (Cy. 297) (C. 120).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwneir y Gorchymyn Cychwyn hwn gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Dŵr 2014 ("Deddf 2014") ac mae'n diwygio Gorchymyn Deddf Dŵr 2014 (Cychwyn Rhif 10) 2017 ("Gorchymyn 2017").

Mae erthygl 3(c) a (d) yn y drefn honno o Orchymyn 2017 yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2019 adrannau 10 ac 11 o Ddeddf 2014, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym.

Mae adran 10 o Ddeddf 2014 yn diwygio adran 51A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("Deddf 1991") ac yn rhoi adrannau 51B a 51C i 51CG newydd yn lle adrannau 51B a 51C o'r Ddeddf honno i reoleiddio trefniadau rhwng ymgymerwr dŵr ac unrhyw berson sy'n ceisio darparu prif bibellau dŵr neu bibellau cyflenwi i'w mabwysiadu yn y pen draw gan yr ymgymerwr dŵr.

Mae adran 11 o Ddeddf 2014 yn diwygio adran 104 o Ddeddf 1991 ac yn mewnosod adrannau 105ZA i 105ZI newydd yn y Ddeddf honno i reoleiddio trefniadau rhwng ymgymerwr carthffosiaeth ac unrhyw berson sy'n ceisio darparu carthffosydd, draeniau neu weithfeydd gwaredu carthffosiaeth i'w mabwysiadu yn y pen draw gan yr ymgymerwr carthffosiaeth.

Mae'r Gorchymyn hwn yn hepgor erthygl 3(c) a (d) o Orchymyn 2017 oherwydd oedi yn y broses o gysoni cymhwysedd datganoledig dros ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth â'r ffin ddaearyddol rhwng Cymru a Lloegr, yn unol ag adrannau 48 a 49 o Ddeddf Cymru 2017.